

Salm 149

Geiriau: Cass Meurig
Tôn: Llwyn Omn (tradd. tref. Cass Meurig)

B7 E B E F#m B E

7

A E B7 E E B E F#m

13

B E A E B7 E

18

E E B7 E B B E E

24

23

C#m F# B E B E

28

F#m B E A E B7 E

O canwch i'r Arglwydd gân newydd, ei seintiau,
 Ym mrenin a chreuwr y byd, llawenhewch!
 A molwch ei enw â dawnsio a chanu,
 Â thympan a thelyn addolwch, mwynhewch!
 Oherwydd mae Duw wrth ei fodd gyda'i bobl,
 Mae'n rhoi gwaredigaeth i'r eiddil a'r gwan,
 O canwch i'r Arglwydd gân newydd, ei seintiau,
 Yng nghanol ei holl bobl ffyddlon, rhowch gân.

O canwch i'r Arglwydd gân newydd, ei seintiau,
 O bydded i holl blant ein Duw lawenhau
 A dathlu ogoniant ein Duw mewn gorfoledd
 A chanu yn llawen fin nos ar eu gwllâu.
 Â mawl yn eu genau, a chleddyf daufiniog
 Fe rwymwyd y gelyn mewn cadwynau cry',
 O canwch i'r Arglwydd gân newydd, ei seintiau,
 Ef yw ein gogoniant: o molwch Duw fry!